Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu Gofal Plant ar gyfer

**Clwb Caleb Tu Fas i'r Ysgol**

**Meithrinfa Rhydaman**
**Y Stryd Fawr**
**Rhydaman**
**SA18 2NS**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cyhoeddi

**Dydd Mercher, 8 Awst 2018**

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2018.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau Trwydded Agored y Llywodraeth. Gallwch weld Trwydded Agored y Llywodraeth ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir, a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

## Disgrifiad o'r gwasanaeth

Cofrestrwyd Clwb Caled Tu Fas i'r Ysgol yn 2005 ac mae'n darparu gofal ar gyfer uchafswm o 32 o blant. Mae'r gwasanaeth yn darparu gofal ar gyfer plant rhwng tair ac 16 blwydd oed rhwng 3pm a 5pm ddydd Llun i ddydd Gwener yn ystod tymor yr ysgol yn unig. Y person cofrestredig yw Nia Wyn Phillips ar y cyd  Elvina Wendy Eireen Jones. Gweithredir Clwb Caled Tu Fas i'r Ysgol o Ysgol Feithrin Rhydaman. Iaith y gofal yw'r Gymraeg a'r Saesneg fel ei gilydd.

## Crynodeb o'n canfyddiadau

**1. Asesiad cyffredinol**

Mae'r plant yn mwynhau eu hunain yn fawr iawn yng Nghlwb Caleb Tu Fas i'r Ysgol. Maent yn cael hwyl gyda'u ffrindiau ac yn derbyn gofal mewn amgylchedd diogel ac ysgogol iawn. Gofelir am y plant gan staff gwybodus, gofalgar a chyson sy'n ymwybodol o'u hanghenion. Mae'r rhieni'n fodlon iawn ar y gwasanaeth a ddarperir.

**2. Gwelliannau**

Mae system diogelwch ffob allwedd newydd wedi'i gosod yn ogystal â blwch awgrymiadau i rieni.

**3. Gofynion ac argymhellion**

Argymhellwn fod y darparwr yn gwneud y canlynol:

- ffurfioli sesiynau goruchwyliaeth ar gyfer aelodau staff unigol a
- rhoi cyfleoedd ychwanegol i blant gael annibyniaeth yn ystod amser byrbryd.

# 1. Llesiant

## Crynodeb

Mae plant yng Nghlwb Caleb Tu Fas i'r Ysgol wedi ymgartrefu'n dda ac maent yn hapus yn y gwasanaeth. Dywedodd y plant wrthym eu bod yn mwynhau chwarae gyda'u ffrindiau a gweithgareddau megis chwarae awyr agored a mwytho'r gwningen.

## Ein canfyddiadau

### 1.1 I ba raddau y mae gan blant lais?

Gwrandewir ar y plant gan oedolion sy'n gofalu amdanynt ac maent yn gwybod y bydd eu ceisiadau'n cael eu bodloni. Maent yn mwynhau chwarae hunangyfeiriedig ac yn gwneud penderfyniadau ynghylch yr hyn maent yn ei wneud.

Roedd y plant yn cael cynnig amrediad o weithgareddau yn y gwasanaeth. Roedd y plant yn dewis yn hyderus yr hyn yr oeddent eisiau chwarae gydag ef cyn byrbryd ac roedd rhai o'r plant wedi dewis chwarae â cheir a rampiau tra'r oedd eraill wedi dewis chwarae gyda marchogion a chestyll. Gwnaeth y plant geisiadau i'r staff gan wybod y byddai eu hanghenion yn cael eu cynnal lle bynnag y bo’n bosibl. Gwnaeth y plant ddewis pa DVD i'w wylio wrth fwyta eu byrbryd ac roeddent yn gallu dewis brechdan neu graceri a haen-uchaf i'w byrbryd.  Dywedodd y plant yn hyderus wrth y staff pan oeddent wedi bwyta digon "Sa i eisiau mwy." Tra roeddent yn yr awyr agored gofynnodd y plant am gymorth i ddringo i lawr polyn dyn tân. Gwnaeth y plant ddewis peidio ymuno yn y cwrs rhwystrau sydd wedi ei gynllunio gan ddewis tynnu allan y sialc a thynnu lluniau ar y llawr yn lle.

Mae gan y plant lais cryf.

### 1.2 I ba raddau mae plant yn teimlo’n ddiogel ac yn hapus, a’u bod yn cael eu gwerthfawrogi?

Mae’r plant yn ffurfio cydberthnasau cadarnhaol ac yn teimlo’n ffyddiog y bydd eu teimladau’n cael eu hystyried.

Gwnaeth y plant gyrraedd y gwasanaeth yn hapus, gan wenu a chwerthin gyda'u ffrindiau. Gwnaethant ymuno yn rhydd mewn sgyrsiau gyda phlant eraill a chyda staff am yr hyn yr oeddent eisiau chwarae gydag ef a pha DVD yr oeddent eisiau ei wylio yn ystod amser byrbryd yn ogystal â’r hyn roeddent ei eisiau ar gyfer byrbryd. Gwnaeth y plant ddangos modelau yr oeddent wedi eu creu i'r staff. Gwnaeth un plentyn ddangos roced yr oedd wedi ei wneud o mobilo ac roedd ganddo wên fawr falch pan ddywedodd aelod o'r staff "Rhagorol, da iawn!" Roedd y plant yn ymlaciedig ac yn hapus iawn yn ystod ein hymweliad ac roedd y trosglwyddiad o'r ysgol i'r clwb yn cael ei gynorthwyo'n fawr gan y cysondeb mewn staff a oedd yn gweithio yn yr ysgol a'r clwb. Roedd holiaduron y plant yn cadarnhau eu bod yn mwynhau treulio

amser ychwanegol gyda'u hathrawon. Gwnaeth un holiadur nodi, "Fy hoff beth am y clwb yw gweld fy hoff athrawon."

Mae'r plant wedi ymgartrefu'n dda iawn ac maent yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus iawn.

### 1.3 Pa mor dda mae plant yn rhyngweithio?

Roedd y plant yn chwarae ochr yn ochr â’i gilydd a chydag eraill mewn modd caredig a chydweithredol. Maent yn ymwybodol o'r hyn sy'n ymddygiad derbyniol ac maent yn ymddwyn yn dda ac yn gwrtais.

Roedd y plant yn chwarae ac yn cydweithredu'n dda iawn trwy gydol yr arolygiad. Roedd y plant yn dal yn nwylo ei gilydd wrth iddynt fynd allan i chwarae. Roedd ymdeimlad o gymuned ac amgylchedd gofalgar iawn gyda'r plant yn helpu ei gilydd a bod yn garedig. Er enghraifft, gofynnwyd i un plentyn ddewis DVD i wylio wrth fwyta byrbryd. Dywedodd plentyn arall yn glir beth yr oedd eisiau ei wylio. Wrth ddychwelyd i'r bwrdd byrbryd trodd y bachgen ifanc i'w ffrind gan ddweud "Rwy wedi dewis y DVD roeddet ti eisiau gan mai ti yw fy ffrind ac rwyt ti'n fachgen da." Gwnaeth ei ffrind ymateb gyda gwên fawr a chofleidiad. Yn ystod amser byrbryd, roedd y plant yn cymryd eu tro ac yn aros yn amyneddgar wrth i ddetholiad o fyrbrydau oedd ar gael iddynt gael ei weini. Tu allan, gwnaeth y plant siarad yn fywiog â'r staff am drychfilod yr oeddent wedi darganfod.

Mae'r plant yn rhyngweithio'n dda iawn â’i gilydd ac â'r staff.

### 1.4 I ba raddau mae plant yn mwynhau eu chwarae a’u dysgu?

Mae'r plant yn ymgymryd â chwarae hunangyfeiriedig yn ogystal â gweithgareddau sydd wedi'u cynllunio yn y gwasanaeth hwn.

Roedd y plant yn gyfforddus yn yr amgylchedd ac roeddent yn dangos hyder wrth ddewis eu gweithgareddau eu hunain ac yn cyfarwyddo eu chwarae eu hunain. Er enghraifft, tra'r oeddent yn yr awyr agored gwnaeth grŵp o blant ddarganfod trychfilod yn dringo ar deiar. Gwnaethant drafod y trychfilod ymysg ei gilydd a phenderfynu nôl deilen fel bod y trychfilod yn gallu cuddio. Aethant ati i gasglu gwahanol fathau o ddail er mwyn gweld pa ddail yr oedd yn well gan y trychfilod eu bwyta. Gwnaeth y plant fwynhau cwblhau cwrs rhwystrau yn yr awyr agored gan fynd dros bont, camu ar gerrig sarn a mynd o dan deiars. Gwnaeth y plant wedyn dechrau gêm morgwn gan ofyn i aelod o'r staff ymuno yn eu gêm. Gwnaethant sgrechian â phleser wrth redeg i ffwrdd o'r morgi.

Mae'r plant yn ffynnu ar y cyfleoedd chwarae rhagorol sydd ar gael.

## 1.5 Pa mor dda mae plant yn datblygu, dysgu a dod yn annibynnol?

Mae plant yn datblygu eu sgiliau unigol a’u hannibyniaeth.

Gwnaeth y plant dacluso'r teganau cyn symud ymlaen i'w gweithgaredd nesaf. Er enghraifft, gwnaeth y plant nid yn unig dacluso eu teganau i ffwrdd ond hefyd cario matiau'r gampfa mewn parau. Roedd y plant yn defnyddio'r toiledau yn annibynnol gan olchi a sychu eu dwylo cyn amser byrbryd. Gwnaethant symud o'r ardal awyr agored i'r tu mewn i fynd i'r toiled yn annibynnol. Gwnaeth y plant nôl dŵr o'r bonyn dŵr awyr agored a rhoi dŵr i'r planhigion yn annibynnol. Gwnaethant edrych ar ôl anifeiliaid anwes yr ysgol a gwelwyd y plant yn anwesu cwningen yr ysgol ac yn glanhau’r cwt o dan oruchwyliaeth. Roedd gan y plant sgiliau echddygol bras rhagorol ac roeddent yn cydbwyso'n dda iawn ar yr offer awyr agored eang. Gofynnir i'r plant am eu safbwyntiau am weithgareddau sydd wedi eu cynllunio ac roedd y gwerthusiadau hyn yn cael eu defnyddio wrth gynllunio gweithgareddau yn y dyfodol.

Mae'r plant yn datblygu'n dda ac mae ganddynt gyfleoedd helaeth i fod yn annibynnol.

## 2. Gofal a Datblygiad

### Crynodeb

Mae staff yn adnabod y plant sydd o dan eu gofal yn dda iawn ac yn rhoi gofal sy'n diwallu eu hanghenion unigol. Maent yn creu awyrgylch hamddenol a magwrol lle mae'r plant yn cael eu hannog i gymryd rhan yn eu gweithgareddau chwarae dewisol, a hybir eu datblygiad unigol.

### Ein canfyddiadau

### 2.1 Pa mor dda mae ymarferwyr yn cadw plant yn ddiogel ac yn iach?

Mae’r staff wedi cyflawni’r hyfforddiant sy’n angenrheidiol i gadw’r plant yn ddiogel ac yn iach. Maent yn dilyn gweithdrefnau priodol mewn ymateb i ddamweiniau a digwyddiadau.

Roedd y staff yn gwybod bod diogelu plant yn flaenoriaeth uchel ac roedd ganddynt ddealltwriaeth dda o ymdrin â phryderon neu ddatgeliadau pan roddwyd senarios iddynt. Roedd y staff wedi diweddaru eu hyfforddiant cymorth cyntaf pediatrig. Roedd gweithdrefnau eglur ar waith i ymdrin ag unrhyw ddigwyddiadau. Roedd y staff a'r rhieni yn llofnodi cofnodion damweiniau a digwyddiadau. Roedd y staff yn ymarfer gweithdrefnau hylendid da, er enghraifft, roeddent yn golchi eu dwylo, yn gwisgo ffedogau wrth baratoi bwyd ac roeddent yn sicrhau bod y byrddau wedi cael eu sychu'n lân cyn i’r plant fwyta eu bwyd. Roedd y staff yn ymwybodol o alergenau ac roeddent wedi ymgymryd â hyfforddiant epi pen. Roedd planhigion mefus wedi'u ceibio o'r ardal awyr agored er mwyn osgoi unrhyw halogiad diangen. Roedd dŵr ar gael i'r plant ei yfed o ddosbarthwr dŵr ar bob adeg. Roedd y staff yn rhoi hetiau haul yr ysgol i’r plant er mwyn eu gwarchod rhag yr haul.

Mae’r staff yn effeithiol o ran cadw’r plant yn iach ac yn ddiogel.

### 2.2 Pa mor dda mae ymarferwyr yn rheoli’r rhyngweithio?

Mae’r staff yn cynorthwyo’r plant i ryngweithio’n briodol.

Roedd y staff yn annog y plant i rannu, i fod yn garedig i'w gilydd ac i feddwl am deimladau plant arall. Roedd y staff yn gweithio’n unol â pholisi rheoli ymddygiad y gwasanaeth ac roeddent yn gadarnhaol iawn, gan ganmol y plant yn rheolaidd. Roedd y staff yn eistedd ar y llawr ar lefel y plant gan sgwrsio gyda nhw am yr hyn yr oeddent yn ei wneud. Pan ddefnyddiodd y plant sialc i dynnu llun roedd y staff yn annog ac yn cefnogi ymdrechion y plant. Er enghraifft, roedd un plentyn wedi tynnu llun o flodyn a dywedodd aelod o'r staff "Da iawn. Mae'n hyfryd!" Roedd y plant yn ymddwyn yn dda iawn yn ystod ein hymweliad. Er enghraifft, gwnaethant rannu'r adnoddau megis sialc ac addurn symudol. Roeddent yn cymryd eu tro wrth wthio ceir i lawr ramp o dan do ac roeddent yn cymryd eu tro ar yr offer awyr agored, gan aros eu tro. Roeddent yn

cydweithio'n dda wrth gasglu dail i drychfilod eu bwyta, roeddent yn dal dwylo yn garedig ac roeddent yn amddiffynnol o’i gilydd. Roedd y staff yn modelu'r ymddygiad disgwyliedig gan siarad yn garedig â'i gilydd ac â'r plant.

Mae’r staff yn rheoli’r rhyngweithio yn dda iawn.

## 2.3 Pa mor dda mae ymarferwyr yn hybu chwarae, dysgu a datblygiad plant, ac yn diwallu eu hanghenion unigol?

Mae'r staff yn caniatáu i'r plant arwain eu chwarae eu hunain, ac yn ymatebol wrth ddarparu cymorth ychwanegol pan fo angen.

Darparodd y staff ofal magwrol ac ymatebol. Roedd y staff yn adnabod y plant yn eu gofal yn dda iawn. Roedd yr holl staff hefyd yn gweithio yn yr ysgol feithrin mewn rolau amrywiol. Roedd rhieni yn llenwi gwybodaeth ynglŷn â'r plant cyn iddynt ddechrau ac roedd hyn yn cynnwys unrhyw anghenion sydd ganddynt megis cyflyrau clywed, lleferydd, alergenau neu'r croen. Roedd y staff yn ysgogi'r plant iau, er enghraifft, i dynnu eu trowseri i fyny pan oeddent yn dechrau cwympo. Roedd y staff yn cynllunio gweithgareddau wythnosol ond roedd y plant yn aml yn cyfarwyddo eu chwarae eu hunain. Roedd y staff yn ymateb yn garedig i geisiadau am help. Er enghraifft, roedd un plentyn eisiau llithro i lawr polyn y dyn tân yn yr awyr agored. Gwnaeth aelod o'r staff dreulio cryn dipyn o amser yn cyfarwyddo'r plentyn ynglŷn â ble y dylai osod ei ddwylo a'i draed wrth sefyll i'r ochr yn barod rhag ofn y byddai angen cymorth bellach. Roedd y plentyn yn gwenu'n falch wrth lithro i lawr y polyn a chafodd ei wobrwyo â phump uchel gan yr aelod o staff. Roedd y staff yn darparu ar gyfer anghenion unigol y plant pan oedd y plant yn dewis beth roeddent eisiau i fwyta yn ystod amser byrbryd. Roedd y staff yn siarad â'r plant yn eu hiaith ddewisol. Mae’r gwasanaeth hefyd yn darparu Cynnig Gweithredol y Gymraeg.

Mae’r staff yn hybu chwarae a datblygiad y plant yn effeithiol ac maent yn gymwys o ran diwallu eu hanghenion unigol.

## 3. Yr Amgylchedd

### Crynodeb

Mae'r arweinwyr yn defnyddio amgylchedd ysgol ar gyfer gofal plant. Maent yn sicrhau bod yr amgylchedd yn lân ac wedi ei gynnal a'i gadw'n dda a'i fod yn briodol ar gyfer ystod oedran y plant sy'n derbyn gofal. Mae gan y plant fynediad at ardal awyr agored a dan do ag adnoddau da iawn.

### Ein canfyddiadau

### 3.1 Pa mor dda mae arweinwyr yn sicrhau diogelwch yr amgylchedd?

Mae gan yr arweinwyr drefniadau ar waith i sicrhau bod yr amgylchedd yn lân ac yn ddiogel.

Roedd y gât i'r ysgol wedi ei gadw dan glo ac roedd yn rhaid i ymwelwyr ddefnyddio system intercom cyn gallu cael mynediad i'r gât allanol. Nid oedd ymwelwyr yn gallu cael mynediad i safle'r ysgol o gwbl heb gael eu gadael i mewn gan aelod o'r staff. Roedd system diogelwch newydd gyda ffobiâu allwedd wedi cael ei chyflwyno. Roedd system ymwelwyr yr ysgol yn cael ei defnyddio ac roedd disgwyl i ymwelwyr roi eu llofnod ar ôl cyrraedd a gwisgo dull adnabod ymwelwyr. Roedd cofnodion cynnal a chadw'n dangos bod larymau tân a mwg wedi cael eu profi. Roedd diffoddyddion tân yn cael eu cadw ar y wal ac roedd yr arweinwyr yn cynnal ymarferion tân rheolaidd. Roedd y boeler yn cael ei wasanaethu'n flynyddol ac roedd yr holl offer trydanol yn cael profion dyfeisiau cludadwy. Roedd yswiriant atebolrwydd cyhoeddus yn gyfredol. Roedd yr offer glanhau yn cael eu cadw mewn cwpwrdd storio, nad oedd gan y plant fynediad ato. Roedd asesiadau risg yn cael eu cynnal ar yr ardaloedd dan do ac awyr agored. Roedd yr amgylchedd yn lân ac yn daclus. Roedd tymheredd yr oergell a'r rhewgell yn cael eu gwirio a'u cofnodi'n ddyddiol.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel iawn.

### 3.2 Pa mor dda mae arweinwyr yn sicrhau addasrwydd yr amgylchedd?

Mae gan y clwb Tu Fas i'r Ysgol fynediad i'r ysgol gyfan gan gynnwys yr ardal awyr agored sydd ag adnoddau da iawn. Mae'r cynllun yn hyrwyddo annibyniaeth y plant a chaiff ei gynnal a'i gadw i safon dda iawn. Mae'r ardal gyfan yn groesawgar ac yn eang.

Mae'r arweinwyr yn gwneud defnydd da o'r gofod sydd ar gael i adael i'r plant chwarae, ymlacio a bwyta. Mae un ystafell yn cael ei defnyddio ar gyfer amser byrbryd ac i ymlacio a gwylio DVDs. Mae'r gwasanaeth yn defnyddio nifer fawr o doiledau a basnau golchi dwylo bach. Mae'r plant yn gallu cael mynediad i holl adnoddau'r ysgol megis yr ystafell gyfrifiaduron, cluniaduron, pwll pelau, cyfleusterau meddal mawr ac ystafell celf a chrefft. Roedd gan yr ardal awyr agored amrediad o gyfleoedd chwarae

ar gyfer y plant. Er enghraifft, llwybrau amrywiol, ardal laswellt, beiciau cydbwyso, fframiau dringo, gardd synhwyraidd, golchi ceir, meinciau, bwrdd sialc, gardd lysiau, ardal gerddoriaeth, cerrig sarn a thwneli teiars.

Mae'r amgylchedd yn addas iawn i blant.

### 3.3 Pa mor dda mae arweinwyr yn sicrhau ansawdd yr adnoddau a'r offer?

Mae adnoddau ac offer o ansawdd da ar gael ar gyfer yr ardaloedd dan do ac awyr agored sy'n addas ar gyfer ystod o oedrannau.
Roedd gan y plant fynediad at amrywiaeth ragorol o deganau, gemau ac adnoddau. Roedd yr adnoddau mewn cyflwr da ac roedd dewis digonol ar gyfer yr ystod oedran sy'n mynychu'r gwasanaeth. Roedd yr ardal awyr agored hefyd yn cynnwys amrediad ysgogol o adnoddau o ansawdd da sy'n caniatáu'r plant i chwarae mewn ffyrdd gwahanol. Mae teganau ac adnoddau yn cael eu glanhau'n rheolaidd. Yn ystod yr arolygiad roedd y plant yn mwynhau chwarae gyda mobil, cestyll a marchogion, sialc, ac ar y cyfarpar amrywiol yn yr awyr agored. Roedd holiaduron y plant yn cadarnhau eu bod yn mwynhau "mynd i chwarae yn yr awyr agored."

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr adnoddau a'r offer o ansawdd rhagorol.

# 4. Arweinyddiaeth a Rheolaeth

## Crynodeb

Mae'r arweinwyr wedi creu ethos cadarnhaol ac maent wedi meithrin perthnasau effeithiol â'r rhieni. Maent yn recriwtio staff addas ac yn darparu dilyniant o ran gofal gan eu bod hefyd yn gweithio yn yr ysgol hefyd. Maent yn gwerthuso'r gwasanaeth yn drylwyr er mwyn gwella.

## Ein canfyddiadau

### 4.1 Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth?

Mae’r arweinwyr yn creu ethos cadarnhaol lle mae’r plant a’r staff yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi.

Roedd y datganiad o ddiben yn cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol ynglŷn â'r gwasanaeth ac yn rhoi darlun cywir o'r gwasanaeth. Roedd gan yr arweinwyr a'r staff berthynas rhagorol â rhieni, a roddodd adborth cadarnhaol iawn am y gwasanaeth. Er enghraifft; "Staff cyfeillgar a chymwynasgar. Mae fy merch yn dwlu dod i'r clwb" a "Gwasanaeth rhagorol. Yr unig broblem sydd gennyf yw cael fy mhlentyn i ddod adref!" Roedd gan ffeiliau'r plant yr holl wybodaeth berthnasol yr oedd eu hangen. Roedd y plant yn hapus, yn ymlaciedig ac wedi ymgartrefu yn ystod ein hymweliad. Roedd damweiniau a digwyddiadau yn cael eu cofnodi a'u llofnodi gan rieni a'r staff.

Mae’r arweinyddiaeth yn gadarn.

### 4.2 Pa mor effeithiol yw'r gwaith o hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella?

Mae’r arweinwyr yn adolygu’r gwasanaeth yn rheolaidd ac yn cymryd i ystyriaeth safbwyntiau’r plant, y rhieni a’r staff.

Roedd yr arweinwyr yn adolygu’r gwasanaeth yn flynyddol ac yn llunio adroddiad. Roedd yr adroddiad wedi'i selio ar y safbwyntiau o fewn holiaduron y rhieni, y staff a'r plant. O ganlyniad; roedd mesurau diogelwch newydd wedi'u cyflwyno megis ffobiâu allwedd i'r staff, roedd y plant yn helpu i gynllunio a gwerthuso gweithgareddau ac roedd blwch awgrymiadau wedi'i greu ar gyfer rhieni.  Roedd y rhieni yn hapus iawn gyda'r dilyniant mewn gofal, gan fod staff o'r ysgol hefyd yn gweithio yn y clwb. Gwnaeth rhieni hefyd ddweud ei fod yn wasanaeth angenrheidiol ar gyfer rheini sy'n gweithio.

Mae systemau priodol ar waith i hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwelliannau.

## 4.3 Pa mor effeithiol mae ymarferwyr, staff ac adnoddau eraill yn cael eu rheoli?

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod y cymarebau staffio’n cael eu cynnal yn dda, bod yr holl staff yn derbyn hyfforddiant rheolaidd a bod digon o adnoddau ar gael ar gyfer yr holl ystod oedrannau.

Roedd yr arweinwyr wedi sicrhau bod y nifer cywir o staff ar ddyletswydd bob dydd. Roedd ganddynt system ar waith sy'n sicrhau bod staff ychwanegol ar gael o hyd. Roedd ffeiliau'r staff yn cynnwys yr holl wybodaeth a dogfennaeth berthnasol. Roedd arfarniadau'r staff yn nodi meysydd hyfforddiant angenrheidiol ar gyfer pob aelod o staff, megis hyfforddiant ar sut mae argraffu tystiolaeth ffotograffaidd. Roedd ffeiliau'r staff yn dangos bod pob gwiriad angenrheidiol wedi'i wneud, a bod y staff yn meddu ar gymwysterau addas. Roedd y staff wedi cwblhau hyfforddiant cymorth cyntaf, amddiffyn plant a hylendid bwyd. Dywedodd y plant wrthym eu bod yn cael hwyl yn y clwb, eu bod yn mwynhau chwarae gyda'u ffrindiau ac yn yr ardal awyr agored. Roedd y plant yn adnabod y staff yn dda am eu bod yn gweithio yn yr ysgol. Roedd y staff a'r rhieni yn teimlo ei bod yn bwysig iawn bod gan y plant ddilyniant y gofal a bod y staff yn gallu danfon negeseuon i’r rhieni am ddiwrnod y plant yn yr ysgol yn ogystal â'r clwb. Roedd y staff yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd ac roeddent yn cynllunio gweithgareddau amrywiol ar gyfer y plant yn wythnosol ar sail thema neu lyfr. Roedd gweithgareddau yn cynnwys, er enghraifft, gwneud dyn eira allan o does halen, taflu peli tenis gan esgus eu bod yn beli eira, creu pengwiniaid 3D, gwneud ac yna bwyta lolis wedi'u rhewi. Mae'r staff a'r plant yn gwerthuso gweithgareddau a chedwir tystiolaeth ffotograffaidd o bob gweithgaredd. Roedd gan y plant fynediad at amrywiaeth eang o adnoddau a gweithgareddau.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod staff cymwys yn cael eu cyflogi a bod cymarebau yn cael eu cynnal yn gyson, y tu hwnt i ofynion yn aml.

## 4.4 Pa mor effeithiol yw partneriaethau?

Mae gan yr arweinwyr berthynas dda iawn â staff yr ysgol lle y mae’r clwb wedi ei leoli. Mae perthnasau da â rhieni.

Person cofrestredig y clwb yw prifathro newydd yr ysgol lle mae'r clwb wedi'i leoli hefyd. Mae'r person â gofal a'r holl aelodau o staff yn gweithio yn yr ysgol. Canfuwyd fod cydberthnasau cryf a diogel rhwng y staff a'r plant, ac roedd perthynas gadarnhaol rhwng y clwb a'r ysgol ehangach. Mae'r person cofrestredig yn sicrhau bod adnoddau yn cael eu rhannu rhwng yr ysgol a'r clwb a bod y staff wedi datblygu perthnasau da â rhieni'r plant. Roedd trafodaethau agored ynglŷn â'r hyn yr oedd y plant wedi'u gwneud a sut yr oeddent yn ymddwyn yn cael eu cynnal pan oedd rhieni yn casglu eu plant. Dywedodd rhieni wrthym eu bod yn fwy na bodlon ar y gwasanaeth a'i fod "yn rhaff achub" iddynt a "ni fyddent yn gwybod beth i wneud hebddo." Roedd staff arbenigol megis hyfforddwyr pêl-droed weithiau yn mynychu'r clwb yn ogystal â'r swyddog heddlu lleol.

Mae Clwb Caleb Tu Fas i'r Ysgol wedi datblygu partneriaethau effeithiol.

## 5. Gwelliannau mae eu hangen ac a argymhellir yn dilyn yr arolygiad hwn

### 5.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn arolygiadau blaenorol

- Rheoliad 29, (3), (a), gan nad oedd system arfarnu gyson a goruchwylio'r holl staff wedi'u sefydlu.
- Rheoliad 15 oherwydd nad oedd y Datganiad o Ddiben yn cynnwys yr holl wybodaeth angenrheidiol yn unol â'r rheoliad hwn.
- Rheoliad 16 oherwydd nad oedd adolygiad ansawdd gofal wedi'i gwblhau yn unol â'r rheoliad hwn a'r safonau gofynnol cenedlaethol.

### 5.2 Argymhellion ar gyfer gwella

Rydym yn argymell y dylai'r darparwr wneud y canlynol:

- ffurfioli sesiynau goruchwyliaeth ar gyfer aelodau o staff unigol a
- rhoi cyfleoedd ychwanegol i blant i gael annibyniaeth yn ystod amser byrbryd.

## 6. Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Roedd hwn yn arolygiad llawn a gynhaliwyd fel rhan o'n hamserlen arferol o arolygiadau. Gwnaeth un arolygydd ymweld â'r gwasanaeth dwy waith ar 12 o fis Mehefin 2018 a 14 o fis Mehefin 2018 am gyfanswm o bedair awr;

- arolygwyd sampl o ddogfennau a pholisïau gan gynnwys ffeiliau'r staff, ffeiliau'r plant, polisïau, cofnodion hyfforddi a chofnodion damweiniau;
- arsylwyd ar y plant gan ddefnyddio'r dull SOFI (y Fframwaith Arsylwi Cryno ar gyfer Arolygu) ac arsylwadau grŵp cyffredinol a
- gwnaethom siarad â'r person cofrestredig, y person â gofal, y rhieni, y staff a'r plant.

Ceir gwybodaeth bellach am yr hyn yr ydym yn ei wneud ar ein gwefan:
www.arolygiaethgofal.cymru

## Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| **Y math o ofal a ddarperir** | **Gofal Dydd Plant**<br>**Gofal y tu allan i oriau ysgol** |
| **Person Cofrestredig** | **Nia Phillips**<br>**Elvina Jones** |
| **Person â gofal** | **Lena Hendra**<br>**Nia Willis** |
| **Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd** | **32** |
| **Ystod oedran y plant** | **rhwng tair ac 16 mlwydd oed** |
| **Oriau agor** | **3pm i 5pm o ddydd Llun i ddydd Gwener yn ystod tymor yr ysgol yn unig** |
| **Iaith weithredol y gwasanaeth** | **Y ddwy iaith** |
| **Dyddiad arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru** | **15 Medi 2015** |
| **Dyddiadau'r ymweliadau arolygu hyn** | **12 ac 14 Mehefin 2018** |
| **Ydy hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg?** | **Nac ydy** |
| **Ydy'r gwasanaeth yn darparu addysg blynyddoedd cynnar ar gyfer plant tair a phedair oed?** | **Nac ydy** |
| **Ydy'r gwasanaeth hwn yn darparu cynnig gweithredol y Gymraeg?** | **Ydy. Mae'r gwasanaeth hwn yn darparu cynnig gweithredol y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth neu a allai ddefnyddio'r gwasanaeth o ran y Gymraeg a'i diwylliant.** |
| **Gwybodaeth ychwanegol:** | |